

Cofnodion Pwyllgor 20.04.2021 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Alun Evans (Yn y gadair)

Bleddyn Davies Gareth Evans

Pît Dafis Ann Harris

Cen Llwyd Gareth Lloyd

Bryan Davies Sioned Davies

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Mawrth yn gywir gan y Cyng Ann Harris ac ategwyd hyn gan y Cyng Cen Llwyd.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Tudalen 'Facebook' Nodwyd fod y dudalen yn weithredol ac fod rhai ohonom wedi ymuno.

Swydd y Clerc Wnaeth y Cadeirydd adrodd y newyddion da fod clercc newydd wedi ei phenodi sef Sioned Davies. Braf oedd medru nodi'r newyddion yma. Estynnwyd croeso i Sioned ynghyd a dymuno'r gorau iddi yn y swydd. Yn yr un modd estynnwyd gwerthfawrogiad i Shân am ei 21ain mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor gan ddymuno pob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol. Wnaeth Shân ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cydweithrediad dros y blynyddoedd.

Gwteri Mi fydd y clercc yn dilyn i fyny ein cais blaenorol ynglyn a gwteri Bwlchfadfa. Wnaeth y Cyng Pît Dafis adrodd ei bod i gyd yn llawn.

Ceisiadau Cynllunio

A210250 Gellie, Synod Inn – Estyniad i ochr yr annedd bresennol – Dim gwrthwynebiad.

Gohebiaeth

Un Llais Cymru Derbyniwyd gwahoddiad i ail ymaelodu gyda'r Gymdeithas am y flwyddyn 2021/22. Cytunwyd yn unfrydol i ymaelodu am y gost o £180.00

Cyfoeth Naturiol Cymru – Adnewyddu Cod Cefn Gwlad 2021 – Geiriad terfynol Mi fydd y clercc yn dosbarthu'r ddogfen uchod drwy e-bost.

Taliadau

Un Llais Cymru £180.00

Unrhyw Fater Arall

Sbwriel Wnaeth y Cyng Gareth Evans godi'r matter ynglyn a'r cynydd o ollwng sbwriel ar hyd ardaloedd yn gyffredinol. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn sefydlu a oes modd gosod arwyddion addysgiadol a fyddai hefyd yn manylu'r gosb gysylltiedig.

Heol Post Bach – Plwmp Mi fydd y clerc yn dilyn i fyny ein cais blaenorol am waith cynnal a chadw ar arwyneb y ffordd yma. Mae cyflwr yr arwyneb wedi dirywio yn sylweddol. Wnaeth y Cyng Bleddyn Davies adrodd fod y broblem mwyaf rhwng Pantgwyn heibio Blaencwmpriidd allan i Bost Bach.

Etholiad Mi fydd yr Etholiad i Senedd Cymru – Etholaeth Ceredigion a Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru; ac Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys. Nodwyd mae yn Neuadd Talgarreg bydd etholwyr ardal Talgarreg yn pleidleisio eleni yn hytrach na Festi Pisgah fel yr arfer. Diolch i'r Cyng Cen Llwyd am ein atgoffa o'r newid yma. Wnaeth hefyd ofyn i bawb i ledu'r neges yma.